# Paratoi ar gyfer yr Ysgol

Y tymor ar ôl eich pen-blwydd yn 3 oed

Mae bron yn amser i ddechrau yn yr ysgol!

Dyma rai pethau y gallwch eu hymarfer gartref i'ch helpu i baratoi ar gyfer yr ysgol.

## Hunanofal ac Annibyniaeth

Anogwch eich plentyn i:

- golchi a sychu ei (d)dwylo
- defnyddio'r toiled pan fydd angen
- gofyn am y toiled gan ddefnyddio llais, ystumiau neu weithredoedd.
- dadwisgo'i hun
- tynnu ei drowsus/throwsus i fyny ei hun
- gwisgo a thynnu ei got/chot
- yn hapus i beidio â bod gyda Mam, Dad neu ofalwr.

## Chwarae gydag Eraill

Helpwch eich plentyn i:

- dechrau dilyn a derbyn rheolau syml
- ymuno â grwpiau o blant sy'n chwarae
- dechrau rhannu a chymryd ei dro/thro
- cymryd rhan a helpu gydag arferion cyfarwydd e.e. tacluso teganau, gosod y bwrdd

## Siarad a Gwrando

Anogwch eich plentyn i:

- dysgu caneuon a rhigymau ar ei gof/chof ac ymuno â'r gweithredoedd a/neu'r geiriau
- dilyn cyfarwyddiadau syml ac arferion cyfarwydd
- gwrando ar stori fer ac ymuno â'r adrodd drwy ddweud geiriau neu ymadroddion sy'n ailadrodd
- gofyn i oedolyn am help pan fydd ei angen arno/arni gan ddefnyddio geiriau ac ystumiau
- defnyddio geiriau cymdeithasol yn briodol e.e. helô, hwyl fawr, os gwelwch yn dda, diolch
- gofyn cwestiynau e.e. Beth yw hwn? Ble

## Bwyta ac Yfed

Siaradwch â'ch plentyn am sut i:

- defnyddio llwy i fwydo ei hun
- eistedd wrth y bwrdd i fwyta cinio
- yfed o gwpan agored heb sarnu

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Sgiliau Llythrennedd

Helpwch eich plentyn i:

- dal pensil i wneud marciau
- mwynhau tynnu llun o unrhyw fath
- mwynhau rhannu llyfrau gydag oedolyn
- eistedd a gwrando ar stori
- sylwi ar rywfaint o brint yn yr amgylchedd, fel llythyren gyntaf ei (h)enw neu logo cyfarwydd

## Sgiliau Mathemategol

Helpwch eich plentyn i:

- canu rhigymau a chaneuon am rifau
- cwblhau jig-so lle mae angen mewnosod y darnau
- adeiladu gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau
- ymarfer cyfrif hyd at 5
- sylwi ar rifau yn yr amgylchedd

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council